# PWYLLGOR IAITH DYDD MAWRTH, 5 GORFFENNAF 2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eirwyn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Charles Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Gweno Glyn, Alwyn Gruffydd, Charles W.Jones, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Hefin Williams, a John Wyn Williams

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

**Swyddogion:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr – Democratiaeth a Chyflawni), Gwenllian Williams (Swyddog Datblygu Iaith), Hawis Jones, Rheolwr Cynllunio Strategol, Perfformiad a Phrosiectau, Debbie Anne Jones, Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ac Ann Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Eirwyn Williams yn gadeirydd y pwyllgor hwn am 2016/17.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Charles Jones yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2016/17.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Tom Ellis, Eric M. Jones ac Owain Williams.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2016 fel rhai cywir.

Mewn ymholiad am enw traeth lleol, cadarnhaodd y Swyddog Datblygu Iaith ei bod wedi derbyn ateb gan ddau allan o bum cyngor tref/cymuned leol yn nodi bod y ddau enw yn cael ei ddefnyddio - Traeth Greigddu a Black Rocks. Y Swyddog Datblygu Iaith i fynd yn ôl at y tri chyngor cymuned arall i gael ymateb er cael tystiolaeth i Ordnans.

Cyfeiriwyd at fap Saesneg a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio ddydd Llun, 4 Gorffennaf a chytunwyd i drafod y mater efo'r Adran Cynllunio.

## 7. ADRODDIAD YR AELOD CABINET - Y GYMRAEG

Croesawyd Debbie Anne Jones yn ôl i'r gwaith yn dilyn cyfnod mamolaeth.

Cyflwynwyd – adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes, gan gynnwys y canlynol:-

- Awdit Iaith a'r cynllun gweithredu. Hyrwyddo'r Iaith drwy ein hadnodd gwerthfawr, sef y staff.
- Cyfarfod efo cynghorau cyfagos i drafod sut i ymateb i ofynion Safonau Iaith i ddod
- Cynhadledd Prifysgol Bangor a'u gwaith ymchwil oedd yn cynnig tystiolaeth. Angen mwy o gydweithio.
- Cyfarfod Prifysgol Aberystwyth. Adroddwyd bod y Brifysgol yn chwilio am feysydd ymchwil yn y maes tai, symudiad pobl ac eraill.
- Canolfan Iaith Bangor yn agor diwedd yr haf.
- Cyfarfod i'w drefnu efo gweision sifil Llywodraeth Cymru i drafod Hunaniaith Cyngor Gwynedd

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 8. CWYNION IAITH

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith yn manylu ar y cwynion iaith ddiweddaraf i law a'r ymatebion.

Codwyd cwyn am dystysgrifau gwersi nofio uniaith Saesneg yn unig a gyflwynir i blant gan y Ganolfan Hamdden ym Mhwllheli.

Adroddodd aelod ei bod wedi rhoi cwyn ymlaen bythefnos yn ôl am arwydd gyda Chymraeg gwallus arno. Nid oedd y Swyddog Datblygu Iaith wedi derbyn y gwyn hyd yn hyn.

Adroddwyd bod yr awdit iaith yn dangos yr angen i dargedu meysydd penodol fel arwyddion a hamdden.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL I'R COMISIYNYDD IAITH

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith i'r Comisiynydd Iaith yn adrodd yn erbyn y safonau iaith a ddaeth i rym ar 31 o Fawrth 2016.

Nodwyd mai isafswm ydi'r safonau iaith ac mai uchelgais Cyngor Gwynedd ydi cyrraedd lefelau uwch.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 10. AWDIT IAITH - CANLYNIADAU IAITH A CHYNLLUN GWEITHREDU

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith gan yr Uwch Reolwr - Democratiaeth a Chyflawni. Manylwyd ar sut aethpwyd ati i gynnal yr awdit a'r canlyniadau o'r gwaith hynny a wnaeth arwain at y camau gweithredu pellach. Adroddwyd bod yna fwlch yn rhai elfennau gwasanaeth oedd yn rhwystro rhag gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg cyflawn, er enghraifft, systemau ddim ar gael yn y Gymraeg. Er hynny, adroddwyd y byddir yn cyfathrebu efo cyrff eraill i roi pwysau arnynt i gynnig gwasanaeth yn Gymraeg.

Darganfu'r 'ymarferiad siopwr cudd' bod y patrwm iaith yng nghlybiau ieuenctid yn siomedig iawn gyda'r angen i arfogi staff i fod yn fwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg bob tro.

Adroddwyd nad oedd y Cyngor wedi paratoi esboniad o beth yn union mae Polisi Iaith yn golygu wrth ddefnyddio'r iaith. O ganlyniad, crëwyd canllawiau newydd yn ddiweddar sy'n cynnwys cyfeiriad at gymorth. Cyfeiriwyd at yr angen i gytundebau efo cwmniau allanol gynnwys amodau sy'n manylu beth yn union oedd ei angen, er enghraifft gosod arwyddion Cymraeg, a bod angen swyddog Cymraeg ar y safle.

Nodwyd bod recriwtio yn rhai meysydd yn anodd a bod trefniadau ar y gweill i drafod y mater fesul Pennaeth Gwasanaeth, yn sgil penderfyniadau blaenorol gan y Pwyllgor hwn.

Cytunwyd bod angen newid ymddygiad staff a rheolwyr ac y gellir dylanwadu drwy'r Tîm Cyfathrebu Mewnol. Nodwyd bod y geiriad 'Cychwynnwch y sgwrs yn y Gymraeg bob tro' yn bwysig iawn i newid ymddygiad staff a rheolwyr.

Awgrymodd aelod y byddai gofyn i benaethiaid ysgolion am adborth ar y Siarter Iaith yn werthfawr iawn. Nodwyd pryder yr aelod bod gwaith papur efo'r Siarter Iaith yn mynd yn fyrdwn ar yr ysgolion. Mewn ymateb i bryder yr aelod, adroddodd yr Uwch Reolwr - Democratiaeth a Chyflawni bod Cyngor Gwynedd wedi arbrofi ers dwy flynedd ar y Siarter Iaith ac yn awr yn edrych beth sydd yn ymarfer da.

Eglurodd y Swyddog Datblygu Iaith bod y Cyngor yn y broses o ddatblygu gwe iaith ar gyfer y swyddfa sydd yn cynnwys wyth cwestiwn syml ar ddefnydd iaith, agwedd a hyder staff. Bydd y Swyddog Datblygu Iaith yn cael clywed gan y swyddogion eu hunain yn hytrach na rheolwyr efo'r we iaith, gan mai barn rheolwyr yn unig sydd ei dderbyn o'r awdit iaith. Y bwriad ydyw defnyddio hwnnw ar gyfer ymyrraeth targedu adrannau sydd angen sylw.

Gwnaed y sylw mai anogaeth sydd angen ar staff a chyfeiriwyd at y gwaith anhygoel wnaed gan Dîm Peldroed Cymru yn ddiweddar ac y gall Cyngor Gwynedd wneud gwaith tebyg. Nodwyd bod dau swyddog cymunedol Hunaniaith wedi bod at Glybiau Ieuenctid yn cyflwyno hanes Cymru.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 11. YMCHWILIAD IAITH - GWELEDEDD Y GYMRAEG YNG NGWYNEDD

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Cynllunio Strategol, Perfformiad a Phrosiectau yn rhoi diweddariad ar waith yr ymchwiliad hyd yma. Adroddwyd bod cynnydd da gyda'r gwaith ac anelir i adrodd i'r Pwyllgor Iaith ym mis Ionawr 2017.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 12. ADRODDIAD Y GWEITHGOR AR YR IAITH GYMRAEG A LLYWODRAETH LEOL

Cyflwynwyd - adroddiad a gyhoeddwyd gan y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol, Mehefin 2016 gan y Swyddog Datblygu Iaith. Nodwyd bod yr adroddiad yn gadarnhaol iawn i Wynedd ac yn cynnig 14 o argymhellion. Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn barod yn ymateb i'r rhan fwyaf o'r argymhellion hyn. Nodwyd bod un o'r argymhellion yn berthnasol iawn i Wynedd, sef "Dylai Awdurdodau Lleol, gan gynnwys yn eu swyddogaeth fel Awdurdodau Addysg Leol, fod dan ddyletswydd statudol i gynllunio gweithlu o safbwynt sgiliau ieithyddol, a lle bo angen, i baratoi hyfforddiant addas i gwrdd â'r anghenion hynny."

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad ac anfon y sylw canlynol at y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi bod y Pwyllgor yn croesawu'r adroddiad sydd yn symud i'r cyfeiriad iawn ac yn edrych ymlaen at y camau nesaf.**

## 13. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR IAITH AR GYFER 2016-17

Cyflwynwyd - adroddiad yr Uwch Reolwr – Democratiaeth a Chyflawni ar raglen waith y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod.

Awgrymodd aelod bod angen datganiad gan y Cyngor ar ddatblygiad y Cynllun Iaith. Adroddwyd y byddir yn cyflwyno Cynllun Strategol newydd ym mis Mawrth 2017 gyda datganiad o fwriad i'w gyflwyno i staff cyn hynny. Adroddwyd bod ystyriaeth yn cael ei roi i gryfhau cyfarfodydd y Cyngor llawn a chynnwys trafodaeth datganiad 'cyflwr y genedl' ar gynlluniau o bwys. Byddai modd cynnwys materion fel yr awdit iaith yn hynny.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 11.35 y.b.

**CADEIRYDD**